

❖ YR YMGNAWDOLIAD

Darllen: Eseia 9:2, 6–7

Ni theithiodd neb erioed mor bell
 â'n hannwyl Iesu ni –
 o'r nef i breseb Bethlehem,
 i groesbren Calfarî.
 Ac ni bu taith erioed mor llawn
 o bob gweithredoedd da.

Elfed

Gweddi:

Diolch am yr Immanuel:

'Daeth Iesu Grist i'n byd i fyw.' Diolch iti, O Dad. Nid yn unig y daeth i fyw gyda ni ond daeth hefyd 'yn frawd i ddyn ac yn Fab i Dduw', yn pontio'r pellter a agorwyd gennym ni, ac yn Fendigeidfran mwy a mwynach i ni Gymry.

'Daeth Iesu Grist i siarad â ni.'

Diolch am yr Hen Destament, lle y mae Duw yn llefaru lawer gwaith ac mewn llawer modd wrth y tadau drwy'r proffwydi.

Daeth y Gair yn Gnawd ac y mae'r defaid yn adnabod llais y Bugail.

'A'm llais i a wrandawant a bydd un gorlan ac un bugail.' Y mae'r Bugail Da yn aros gyda'i braidd gydol y dydd ac yn drysor ym mwllch y gorlan gydol y nos. Ar awr perygl y mae'n dweud,

'Gadewch i'r rhain fyned, cymerwch chwi fi.'

Nid fel gwas cyflog sy'n gadael y defaid ac yn ffoi.

Felly, gwrando'n llef. Ie, gwrando'n llef yn awr.

'O gwrando'n llef ein Iesu da

a gwared y byd rhag rhyfel a phla.' Amen.

Neges:

Rydym yn byw yng nghanol rhyfeddodau. Gwelodd ail hanner yr ugeinfed ganrif fwy o ryfeddodau nag a welodd dyn mewn mileniwm. Y mae'r ganrif hon am ddatgelu rhagor eto.

Y rhyfeddod mwyaf, fodd bynnag, yw rhyfeddod y Duwdod, a rhyfeddod Trefn y Cadw. John Edwards a ddywedodd...

Duw ryfeddir, iddo cenir
 gan drigolion nef a llawr,
 tra bydd Iesu, fu mewn gwaeledd,
 'n eistedd ar yr orsedd fawr.

A ydym ninnau'n rhyfeddu? A gollwyd y ddawn? Mae'n anodd i ni synnu gan gymaint rhyfeddodau technolegol yr oes fodern. A gollwyd hefyd ein haddoliad syn?

Gŵyl y plant yw'r Nadolig, ond collant hwythau hefyd y ddawn i ryfeddu weithiau. Na fydded i hynny ddigwydd byth! Fel y mynegodd y bardd Rhydwen Williams:

Yn nheyrnas diniweidrwydd
 gwyn fyd pob plentyn bach
 sy'n berchen llygaid llawen
 a phâr o fochau iach!
 Yn nheyrnas diniweidrwydd
 gwae hwnnw, wrth y pyrth:
 rhy hen i brofi'r syndod,
 rhy gall i weld y wyrth!

Mae emyn John Edwards yn gorffen gyda'r cwpled:

Am ei haeddiant sy'n ogoniant
 bydded moliant mwy, Amen.